Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Y defnydd o dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd mewn achosion troseddol

Mae'r alwad am dystiolaeth hon yn dechrau ar 21 Ionawr 2025

Mae'r alwad am dystiolaeth hon yn dod i ben ar 15 Ebrill 2025

# Y defnydd o dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd mewn achosion troseddol

# Ynglŷn â'r alwad am dystiolaeth hon

| | |
|---|---|
| **At:** | Pawb sydd â diddordeb. |
| **Hyd:** | O 21/01/25 tan 15/04/25 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat amgen) at:** | E-bost: computer.evidence@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 15/04/25 at:<br>E-bost: computer.evidence@justice.gov.uk |

# Cynnwys

Y defnydd o dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd mewn achosion troseddol **Error! Bookmark not defined.**

**Y defnydd o dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd mewn achosion troseddol** Error! Bookmark not defined.

**Ynglŷn â'r alwad am dystiolaeth hon** Error! Bookmark not defined.

**Cynnwys** **1**

**Rhagair** Error! Bookmark not defined.

**Cyflwyniad** Error! Bookmark not defined.

Nodau ac Amcanion yr Alwad am Dystiolaeth 3

Rhagdybiaeth Cyfraith Gyffredin Gyfredol **Error! Bookmark not defined.**

Cwmpas arfaethedig unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith **Error! Bookmark not defined.**

**Cwestiynau** Error! Bookmark not defined.

**Amdanoch chi** **8**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **9**

Cwynion neu sylwadau 9

Copïau ychwanegol **Error! Bookmark not defined.**

Cyhoeddi'r ymateb 9

Grwpiau o gynrychiolwyr **Error! Bookmark not defined.**

Cyfrinachedd 9

# Rhagair

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i system gyfiawnder sy'n gweithio i bawb sy'n dibynnu arni, gan ddarparu canlyniadau teg mewn ffordd amserol a theg.

Er mwyn i hynny barhau, rhaid i'r gyfraith a'r weithdrefn droseddol esblygu i adlewyrchu'r byd rydym yn byw ynddo heddiw.

Sefydlwyd egwyddorion cyfoes ynghylch y defnydd o dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd cyfrifiadurol mewn achosion troseddol dros ddau ddegawd yn ôl, gyda'r rhagdybiaeth yn y gyfraith gyffredin bod cyfrifiadur yn gweithredu'n gywir oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Yn fras, 'mae'r cyfrifiadur wastad yn iawn', oni bai y gall rhywun ddangos nad yw hynny'n wir.

Mae cyfyngiadau'r rhagdybiaeth hon wedi eu hamlygu'n amlwg gan sgandal Horizon Swyddfa'r Post, a welodd gannoedd o is-bostfeistri yn cael eu heuogfarnu ar gam. Roedd yr euogfarnau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth y gwyddom bellach ei bod yn ffug, oherwydd diffygion yn system meddalwedd cyfrifo Horizon, gan ddangos yn glir ffaeledigrwydd y dystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd.

Yn ystod y pum mlynedd ar hugain ers edrych ar y rhagdybiaeth ddiwethaf, mae'r defnydd o gyfrifiaduron a meddalwedd wedi esblygu y tu hwnt i bob amgyffred. Rydym yn byw mewn byd cynyddol ddigidol a rhwydweithiol, lle mae meddalwedd wedi dod yn hynod o arbenigol a chymhleth. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr amser yn iawn i ail-archwilio'r maes pwysig hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.

Rwy'n croesawu safbwyntiau pawb sydd â diddordeb yn y maes hwn o weithdrefn droseddol, a gobeithio y bydd eich mewnbwn yn ein helpu i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn deg ac yn effeithiol, nawr ac am flynyddoedd i ddod.

**Sarah Sackman CB AS**

**Gweinidog y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol**

# Cyflwyniad

Mae’r alwad am dystiolaeth hon yn ein helpu i ddeall yn well sut mae’r rhagdybiaeth bresennol ynghylch derbynioldeb tystiolaeth gyfrifiadurol yn gweithio’n ymarferol, ac a yw’n addas at y diben yn y byd modern.

Cyflwynwyd y rhagdybiaeth bresennol yn 2000 yn dilyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ar ôl ymgynghoriad. O ystyried bod y defnydd o systemau meddalwedd a chyfrifiadurol wedi cynyddu’n esbonyddol yn ystod y 25 mlynedd ddiweddaf ers argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, ynghyd â newidiadau yn y ffordd rydym yn defnyddio'r systemau meddalwedd hyn, rydym yn gwahodd safbwyntiau ynghylch a yw'r amser yn iawn i ailedrych ar y rhagdybiaeth hon.

Wrth ystyried hyn, mae’n bwysig nodi bod ‘tystiolaeth gyfrifiadurol’ bellach yn cynyddu mewn nifer o erlyniadau, yn enwedig mewn troseddau fel twyll, treisio ac achosion o droseddau rhywiol difrifol. Defnyddir tystiolaeth gyfrifiadurol yn eang hefyd mewn achosion lle ceir nifer fawr o erlyniadau fel troseddau gyrru. Felly wrth archwilio'r maes hwn, mae'n bwysig ein bod yn ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer gweithrediad effeithiol y system cyfiawnder troseddol.

Mae hefyd yn hanfodol, wrth wneud unrhyw newidiadau i’r gyfraith yn y maes hwn, ein bod yn glir ynghylch sut rydym yn diffinio tystiolaeth o’r fath, er mwyn osgoi dod ag unrhyw beth na ddylid ei gynnwys o fewn y cwmpas yn anfwriadol, neu’n wir eithrio unrhyw beth rydym yn ei ystyried y dylid ei gynnwys o fewn y cwmpas. Gallai'r hyn sy'n gyfystyr â thystiolaeth ddigidol fod yn ddigon eang i gynnwys negeseuon testun, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, ffotograffau digidol etc. Wrth ystyried newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud â rhagdybiaeth dibynadwyedd tystiolaeth o'r fath, rydym o'r farn ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng y dystiolaeth ddigidol ehangach hon a thystiolaeth a gynhyrchwyd yn benodol gan system neu feddalwedd gyfrifiadurol.

Rydym yn croesawu safbwyntiau gan sefydliadau ac unigolion sydd â phrofiad o’r system cyfiawnder troseddol, ynghyd â’r rhai sydd ag arbenigedd mewn cyfrifiaduron/meddalwedd a’r defnydd o’r dystiolaeth a gynhyrchir ganddynt.

## Nodau ac Amcanion yr Alwad am Dystiolaeth

Ein nod wrth gyhoeddi’r Alwad am Dystiolaeth hon yw cynyddu ein sylfaen dystiolaeth a’n dealltwriaeth o’r ffyrdd yr ymdrinnir â thystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd mewn achosion troseddol. Mae hyn yn cynnwys sut caiff y dystiolaeth hon ei thrin mewn awdurdodaethau eraill, ac unrhyw heriau neu faterion sy'n ymwneud â'r sefyllfa bresennol yn y wlad hon.

Ein hamcan cyffredinol yw sicrhau tegwch a chyfiawnder i bawb sy'n ymwneud ag erlyniadau.

Ein bwriad yw y bydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn cael eu llywio gan yr holl dystiolaeth sydd ar gael, sy'n ymarferol yn y System Cyfiawnder Troseddol fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd, a'u diffinio'n ofalus er mwyn egluro beth sydd o fewn cwmpas diwygio o'r fath, a diogelu'r dyfodol o ystyried y dirwedd dechnoleg sy'n esblygu'n gyflym, gan gynnwys y defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial.

## Rhagdybiaeth Cyfraith Gyffredin Gyfredol

Cyn 2000 roedd derbynioldeb 'tystiolaeth gyfrifiadurol' yn amodol ar a.69 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (1984). Diddymwyd hyn gan a.60 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

Nododd rhan berthnasol a.69:

> *Mewn unrhyw achos, ni fydd datganiad mewn dogfen a gynhyrchir gan gyfrifiadur yn dderbyniol fel tystiolaeth o unrhyw ffaith a nodir ynddo oni bai ei fod yn cael ei ddangos.*
> - *nad oes sail resymol dros gredu bod y datganiad yn anghywir oherwydd defnydd amhriodol o'r cyfrifiadur;*
> - *bod y cyfrifiadur yn gweithredu'n iawn ar bob adeg berthnasol, neu os nad oedd, nad oedd unrhyw fodd nad oedd yn gweithredu'n iawn neu'n anweithredol yn effeithio ar gynhyrchu'r ddogfen neu gywirdeb ei chynnwys...*

Yn 1997, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad yn argymell diddymu a.69 heb gyflwyno unrhyw beth yn ei le. Yn 2000 fe'i disodlwyd gan ragdybiaeth cyfraith gyffredin (gwrthbrofi) bod y cyfrifiadur yn gweithredu'n gywir ar yr adeg berthnasol. Mae'r rhagdybiaeth yn un y gellir ei gwrthbrofi, sy'n golygu os gellir dangos nad yw'r feddalwedd, o bosib, wedi bod yn gweithio'n gywir, mae'r baich yn symud i bwy bynnag sy'n ceisio dibynnu ar y dystiolaeth i brofi ei fod.

## Cwmpas arfaethedig unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith

Erbyn hyn, ceir twf mewn deunydd digidol mewn achosion troseddol yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â thwyll, trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol. Mae'r hyn sy'n gyfystyr â deunydd digidol wedi esblygu'n sylweddol ers cyflwyno a.69 yn 1984. Pe bai'n cael ei adfer heddiw, gellid ei ddehongli bellach i gynnwys popeth o'r meddalwedd cyfrifo cymhleth a ddefnyddir gan fanciau masnachol i negeseuon testun, cadwyni e-bost a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn awyddus i unrhyw newidiadau i ragdybiaeth cyfraith gyffredin gyfredol gael eu diffinio'n ofalus i gynnwys y dystiolaeth honno a gynhyrchir gan feddalwedd yn unig, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial ac algorithmau. Mae rhai enghreifftiau (nad ydynt yn

hollgynhwysfawr) o'r hyn rydym yn rhagweld y bydd o fewn cwmpas diwygio o'r fath yn cynnwys:

- rhaglenni cyfrifo fel system Horizon a ddefnyddiwyd gan Swyddfa'r Post,
- meddalwedd canfod twyll neu lên-ladrad awtomatig,
- adrodd awtomataidd yn seiliedig ar gofnodion a gofnodwyd ar ddyfeisiau, fel dyfeisiau llaw i gofnodi rhyngweithiadau cleifion mewn ysbyty.

Credwn y dylid eithrio tystiolaeth sydd ond yn cael ei chadw neu ei chofnodi gan ddyfais. Er enghraifft:

- Cyfathrebu digidol rhwng pobl fel negeseuon testun, negeseuon a anfonir drwy wasanaethau negeseua ar y we, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, e-byst;
- Ffotografau digidol a deunydd fideo;
- Darlleniadau anadliedydd;
- Adroddiadau echdynnu ffonau symudol.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch ai dyma'r ffiniau cywir, sut dylid llunio'r diffiniadau hyn, ac enghreifftiau eraill o fathau penodol o dystiolaeth a ddylai fod o fewn neu y tu allan i'r cwmpas.

# Cwestiynau

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn yr alwad am dystiolaeth hon.

**Cwestiynau:**

1) Rhagdybiaeth cyfraith gyffredin gyfredol (gwrthbrofi) yw bod cyfrifiaduron sy'n cynhyrchu tystiolaeth yn gweithredu'n gywir ar yr amser perthnasol.
   **(a) A yw'r rhagdybiaeth hon yn addas at y diben o ran achosion troseddol modern?**
      (i) Nodwch pam y rhoddoch yr ateb hwn
   **(b) Yn eich barn chi, pa mor hawdd neu anodd yw hi ar hyn o bryd i'r rhagdybiaeth hon gael ei gwrthbrofi'n effeithiol?**
   **(c) Pa rwystrau rydych chi'n eu gweld wrth wrthbrofi'r rhagdybiaeth hon yn effeithiol?**
      (i) Rhowch enghreifftiau lle bo'n bosib.

2) **Allwch chi roi enghreifftiau o awdurdodaethau neu sefyllfaoedd eraill lle mae'n rhaid ardystio dibynadwyedd meddalwedd?:**
   a) Fel enghreifftiau o arfer da?
   b) Fel enghreifftiau o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt?

3) **Pe bai'r sefyllfa'n cael ei diwygio, beth yn eich barn chi fyddai'r ateb mwyaf priodol ac ymarferol o ystyried ein nodau a'n hamcanion a nodir uchod?** Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ateb fynd i'r afael â chymaint o'r isod â phosib:
   a) Pa fesurau diogelu gweithdrefnol y mae angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod eich ateb arfaethedig yn effeithiol?
   b) Sut gallem sicrhau bod unrhyw ateb arfaethedig, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosib, yn addas ar gyfer y dyfodol?
   c) Sut gallwn ni sicrhau bod unrhyw ateb arfaethedig yn weithredol ymarferol?
   d) Os bydd eich ateb arfaethedig yn gofyn am ddefnyddio tystion arbenigol (naill ai wedi'u cyfarwyddo ar y cyd neu'n unigol), pa arbenigedd a chymwysterau y byddai eu hangen ar yr unigolyn hwnnw? Hyd y gwyddoch, a oes digon o bobl o'r fath ar hyn o bryd?

4) **Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddiffinio 'tystiolaeth gyfrifiadurol' at y dibenion hyn?**
   a) Ydych chi'n cytuno y dylai tystiolaeth a gynhyrchir gan feddalwedd, fel y nodir uchod, fod o fewn y cwmpas, ac y dylai tystiolaeth sy'n cael ei chasglu / recordio gan ddyfais yn unig fod y tu allan i'r cwmpas? Rhowch reswm am eich ateb.
      i) Allwch chi roi enghreifftiau penodol o'r math o dystiolaeth y credwch y dylai fod o fewn y cwmpas?

ii) Allwch chi roi enghreifftiau penodol o'r math o dystiolaeth y credwch ddylai fod y tu allan i'r cwmpas?

5) **A oes unrhyw ffactorau eraill sy'n bwysig i ni eu hystyried yn eich barn chi?**

**Diolch am gymryd rhan yn yr alwad am dystiolaeth hon.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun. Dylech gynnwys eich atebion yn eich e-bost eglurhaol.

| |
|---|
| **Enw llawn** |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o’r cyhoedd ayb.) |
| **Dyddiad** |
| **Enw cwmni/sefydliad** (os yn gymwys): |
| **Cyfeiriad** |
| |
| **Cod post** |
| **Cyfeiriad e-bost** |
| **Pa brofiad / arbenigedd perthnasol sydd gennych?**<br>a) Academaidd<br>b) Gweithiwr cyfreithiol proffesiynol<br>c) Barnwr<br>d) Gweithiwr meddalwedd proffesiynol<br>e) Arbenigwr fforensig<br>f) Arbenigedd proffesiynol perthnasol arall<br>g) Profiad personol o’r system cyfiawnder troseddol<br>h) Arall |
| Rhowch wybod i ni os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb. |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod. |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp i ni a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

**E-bost**: computer.evidence@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses galwad am dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyfeiriad e-bost isod.

computer.evidence@justice.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen yn computer.evidence@justice.gov.uk

## Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth hon yn cael ei gyhoeddi maes o law.

## Grwpiau o gynrychiolwyr

Gofynnir i grwpiau o gynrychiolwyr roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid

i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy’n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â DPA ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd parti

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi canfod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.